

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

25 Ionawr 2016

CLA641 - Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015. Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gwasanaethau penodol a'r meini prawf ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny gan weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, sy'n gweithio mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

CLA643 - Rheoliadau Cynllunio Strategol (Cyfansoddiad Paneli a Gwariant Cymwys) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad panel cynllunio strategol ("panel") o ran rhyw ac ynghylch gwariant cymwys panel sydd i'w dalu gan ei awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol.

CLA644 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 66 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ('Deddf 1998') sy'n diffinio eiddo domestig at ddibenion Rhan III (ardrethu annomestig) o'r Ddeddf honno.

Mae adran 66 o Ddeddf 1998 hefyd yn diffinio llety hunanddarpar ac yn darparu nad yw llety o'r fath yn eiddo domestig. Mae erthygl 2 (2) o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r diffiniad hwnnw er mwyn ychwanegu amgylchiadau pellach lle y mae adeilad neu ran hunangynhaliol o adeilad yn llety hunanddarpar ac felly heb fod yn eiddo domestig.



## CLA645 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/229 (Cy. 11)) ("Gorchymyn 2015"). Mae Gorchymyn 2015 yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi a chynllun rhyddhad ardrethi dros dro sydd i redeg o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, ac sy'n berthnasol i gategorïau penodol o eiddo yn unig.

Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2015 drwy estyn y cyfnod amser y mae'r cynllun rhyddhad ardrethi dros dro i fod yn gymwys, i 31 Mawrth 2017.

## CLA646 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 3 (newidiadau mewn defnydd) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i roi hawliau datblygu a ganiateir i newid defnydd adeiladau a ddefnyddir fel tai amlfeddiannaeth ar raddfa fechan (dosbarthiad defnydd C4) i'w defnyddio fel tai annedd (dosbarthiad defnydd C3).

